## ATODLEN 18

## RHYDDHAD ELUSENNAU

*Rhyddhad rhannol: elusen nad yw'n elusen gymwys*

8 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo elusen ("E") yn un o ddau brynwr neu ragor sy'n caffael testun trafodiad tir fel tenantiaid ar y cyd,

(b) pan na fo E yn elusen gymwys,

(c) pan fyddai paragraff 6(2) i (4) yn gymwys pe bai E yn elusen gymwys, a

(d) pan fo E yn bwriadu dal y rhan fwyaf o'i chyfran anrhanedig o destun y trafodiad at ddibenion elusennol cymwys.

(2) Mewn achos o'r fath—

(a) mae paragraffau 6 a 7 yn cael effaith fel pe bai E yn elusen gymwys, ond

(b) at ddibenion paragraff 7 mae "digwyddiad datgymhwyso" yn cynnwys y canlynol os cânt eu gwneud at ddiben ac eithrio hybu dibenion elusennol E—

(i) unrhyw drosglwyddiad gan E o brif fuddiant yn holl destun y trafodiad a ryddheir neu unrhyw ran ohono;

(ii) unrhyw les rhent isel a roddir am bremiwm gan E am yr holl destun hwnnw neu unrhyw ran ohono.

(3) Mewn perthynas â throsglwyddiad neu les a roddir sydd, yn rhinwedd is-baragraff (2)(b), yn ddigwyddiad datgymhwyso at ddibenion paragraff 7—

(a) dyddiad y digwyddiad at y dibenion hynny yw'r dyddiad y mae'r trafodiad a ryddheir yn cael effaith, a

(b) mae paragraff 7 yn cael effaith gyda'r addasiadau yn is-baragraff (4).

(4) Yr addasiadau i baragraff 7 yw—

(a) mae is-baragraff (4) i gael effaith fel pe bai "Yn union cyn" yn cael ei roi yn lle "Ar adeg";

(b) mae is-baragraff (9)(a) i gael effaith fel pe bai "yn union cyn ac yn union ar ôl" yn cael ei roi yn lle "ar adeg";

(c) mae is-baragraff (9) i gael effaith fel pe bai paragraff (b) wedi ei hepgor.

(5) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) rhoddir les "am bremiwm" os oes cydnabyddiaeth ar wahân i rent, a

(b) mae les yn les "rhent isel" os yw'r rhent blynyddol (os oes un) yn llai na £1,000 y flwyddyn.

(6) Yn y paragraff hwn—

(a) mae i "rhent blynyddol" yr ystyr a roddir gan baragraff 36(2) Atodlen 6, a

(b) mae i "rhent" yr un ystyr ag a roddir yn yr Atodlen honno.